# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 14 Hydref 2024

## SL(6)533 – Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("**Deddf 2022**") yn darparu ar gyfer sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("**y Comisiwn**") a diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Sefydlwyd y Comisiwn fel endid cyfreithiol ar 15 Rhagfyr 2022. Unwaith y caiff darpariaethau perthnasol Deddf 2022 eu cychwyn, bydd y Comisiwn yn gyfrifol am hyrwyddo, cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2022 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru ("**y Gofrestr**"). Bydd y Gofrestr yn darparu'r mecanwaith cyfreithiol ar gyfer goruchwyliaeth reoleiddiol ar ddarparwyr addysg drydyddol cofrestredig yng Nghymru sy'n derbyn arian cyhoeddus, gan gynnwys cyllid grant gan y Comisiwn a chymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chofrestru a dadgofrestru darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru gan y Comisiwn, gan gynnwys categorïau cofrestru, cymhwystra i gael cymorth ariannol gan y Comisiwn at ddibenion addysg uwch, ymchwil neu arloesi, amodau cofrestru, gwybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yng nghofnod darparwr yn y Gofrestr ac amgylchiadau pan fo rhaid i'r Comisiwn dynnu darparwr cofrestredig o gategori o'r Gofrestr.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:** 11 Tachwedd 2024